***Grŵp Ecosystem Arfordirol Cymru - nodiadau drafft o'r ail gyfarfod, 30ain Gorffennaf 2009, CCGC Aberystwyth***

***Presennol:*** Peter Rhind Cadeirydd CEG (CCGC), Juliet Hynes (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - yn cynrychioli Sean McHugh), Kate Collins (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru), Alec Taylor (CCGC), Quentin Grimley (CCGC), Richard Ellis (NT), Mike Bailey (CCGC), Duncan Ludlow (CCGC), Steve Moon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), Chris Wynne Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru - Gwaith Trin Dŵr), Kerry Seaton (CCGC - yn ymuno drwy delegynadledda)
***Ymddiheuriadau***: Mike Howe (CCGC), Mark Winder (Dinas a Sir Abertawe), Nicola Rimington (CCGC), Kirsty Lindenbaum (CCGC)

**Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 30ain Gorffennaf 2009.**

| ***Pwynt gweithredu / trafod*** | ***Trafodaeth*** | ***Gweithredu ar unwaith*** | ***Cynnydd erbyn y 3ydd cyfarfod*** |
|---|---|---|---|
| ***1. Cyflwyniadau*** | | | |
| | Nodwyd nad oedd neb o Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn gallu dod i'r cyfarfod, mae'n bwysig cadw'r cysylltiad hwn. | | |
| ***2. Cofnod y cyfarfod diwethaf*** | | | |
| | Hyd yma, ni lwyddwyd i gael cynrychiolydd o'r Cynllun Rheoli Traethlinau (SMP) ar CEG. Y broblem yw bod SMPau ar wahanol gamau datblygu felly efallai na fyddant yn gallu cael gafael ar un | Gwnaeth SMc a KC nodi cynrychiolwyr SMP priodol a'u gwahodd i CEG | SM wedi siarad â chysylltiadau ym maes yr arfordir. Mae angen cyflwyno materion polisi sy'n ymwneud â SMP2 a sicrhau y caiff cyngor ecolegol ei ystyried gan y prif asiantaethau yn ystod cam ymgynghori SMP2; CCGC; Asiantaeth yr Amgylchedd; NT; ALlau ac ati. Canllawiau allweddol ar gyfer canllawiau SMP Defra/LlCC<br><br>http://www.defra.gov.uk/environment/flooding/documents/policy/guidance/smpguide/smpgvol1.pdf<br><br>Bydd y Grŵp Morol yn dosbarthu fersiwn drafft o'r materion polisi, sy'n cynnwys camau gweithredu'r SMP y gall CGEC eu mabwysiadu/eu diwygio yn unol â hynny. Yna, caiff hwn ei gymryd i gyfarfod Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Rhagfyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynrychiolydd ar gyfer yr holl SMPau. Mae Kerry Seaton yn aelod o SMP Sir Gaerfyrddin ond efallai y byddai'n ddefnyddiol cael rhywun o faes Peirianneg | | |
| | Ni chysylltodd PR â Chris Tucker (y Comisiwn Coedwigaeth) ynghylch coedwigaeth ar dwyni tywod am fod ganddo gyfarfod mawr gyda CCGC yr wythnos nesaf yn Niwbwrch yn ymwneud â'r mater hwn. | Bydd PR yn cysylltu â Chris Tucker ar ôl cyfarfod CCGC yr wythnos nesaf. | |
| | Penderfynodd y grŵp nad oes angen diffiniad eang o gynefin Arfordirol, ac i aros gyda diffiniadau y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Penderfynwyd y dylid cadw gwaith adfer/ehangu coetir twyni Iwerydd yng nghynllun gweithredu CEG. (yn ôl y Cyd- | Dylid cynnwys gwaith adfer/ehangu coetir twyni Iwerydd yng nghynllun gweithredu CEG. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bwyllgor Gwarchod Natur (CBCN), nid oes cynefin o'r fath ar ôl yn y DU). Pe gadewid i hwn ddatblygu, gallai beryglu cynefinoedd ar dwyni, felly mae angen bod yn ofalus wrth lunio meini prawf ar gyfer lleoli'r cynefin hwn. Awgrymwyd y gellid defnyddio tir amaethyddol cyfagos i greu coetir twyni. Mae peth coetir twyni yn Abercynffig; mae PR yn edrych ar y syniad o droi rhan o goedwig Niwbwrch yn goetir twyni Iwerydd. | | |
| | O ran yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ni fu unrhyw gynnydd o ran y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) hyd yma. | | |
| | Cwblhawyd prosiect Morfa Heli Gogledd Cymru gan Asiantaeth yr | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amgylchedd Cymru ond ni fu'n bosibl i KC ddosbarthu'r adroddiad o ganlyniad i faterion yn ymwneud â chyfrinachedd tirfeddiannwr. Bwriedir ailadrodd y prosiect yn Ne Cymru. Cyflawnwyd prosiect tebyg gan CCGC yn Sir Gaerfyrddin | | |
| | Mae archwiliad WTW o safleoedd bron â'i gwblhau; | Bydd CW yn anfon yr adroddiad i CEG pan fydd wedi'i gwblhau. | |
| ***3. Cyflwyno adroddiad ar Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth yn 2008*** | | | |
| | Llwyddiannau a chyfyngiadau canlyniadau cylch adrodd 2008 Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Mae angen i CEG edrych ar y cyfyngiadau a restrir ac ystyried sut i'w goresgyn. Mae cyllid yn broblem fawr, ac mae cyllid grant CCGC yn debygol o leihau. Ni fydd CCGC yn gallu darparu cyllid grant byw ac anghenion, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | felly mae angen ymchwilio i ffrydiau ariannu eraill. | | |
| | Gwnaeth JH grynhoi proses newydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGBau Lleol, ESG Cymru ac ati, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU). Wrth drafod targedau BAP, nodwyd nad oes llawer o wybodaeth gennym am faint ein cynefinoedd a bod angen mwy o wybodaeth sylfaenol. | | |
| ***4. Taenlen cynllun gweithredu CEG*** | | | |
| Trafodaeth ynghylch camau gweithredu'r drafft, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod | Mae'r daenlen ar gamau gweithredu yn ymwneud â blaenoriaethu camau gweithredu ac awgrymu camau/meysydd cynefin y gallai'r CGBau Lleol ac eraill ganolbwyntio arnynt.<br><br>Byddai mapiau o gyfleoedd (ar gyfer adfer/ehangu) yn ddefnyddiol iawn. | Bydd KS yn rhoi crynodeb o brosiect URBAIN i CEG | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae hyn eisoes ar waith yn y prosiectau Morfa heli (dylai prosiect De Cymru gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn).<br><br>URBAIN - arbrofion i wella cynefinoedd ar weithfeydd arfordirol.<br><br>Mapiau cyfleoedd, cam 1. archwilio cynefinoedd, 2. lle ceir cyfleoedd i greu cynefinoedd arfordirol yn seiliedig ar amgylchiadau cyfredol - mae angen ychwanegu haen o leoliadau lle bu cynefinoedd yn y gorffennol; bydd angen i CGBau Lleol gyfrannu at fireinio ar lefel leol, ond dylid rhoi awgrymiadau iddynt ar gyfer y gwaith. Mae contractwyr SMP2 wedi gofyn am fapiau cynefin hanesyddol (mae CCGC yn cydlynu hyn). Mae archifau Gwynedd yn | Bydd PR yn edrych ar wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y mapiau cyfle ac yn adrodd yn ôl.<br><br>Bydd SMc yn dosbarthu canllawiau'r CGBau Lleol (Atodiad H a nodiadau am gyfarfodydd CGBau Lleol sy'n mynd rhagddynt) i CEG | Dolen i Atodiad H, Canllawiau'r CGBau Lleol: http://www.biodiversitywales.org.uk/about_the_wbp-17.aspx (mae Atodiad H yn y Fframwaith Bioamrywiaeth)<br>Dolen i gyfarfodydd y CGB Lleol sy'n mynd rhagddynt: http://www.biodiversitywales.org.uk/lbap_in_wales-137.aspx |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adnoddau gwych. Gellid creu syniadau posibl gyda'r mapiau cyfle<br><br>Awgrymwyd nad yw partneriaethau'r CGBau Lleol yn annog gweithgarwch lleol | | |
| | Mae angen meddwl am gamau eraill sydd angen eu cynnwys, blaenoriaethu camau a meddwl am amserlen.<br><br>Sylwadau ar gamau unigol:<br>Dylid cynnal arolwg II ar safleoedd penodol, nid fel arolwg cyffredinol. | Bydd pawb yn anfon unrhyw gamau neu sylwadau eraill i SMc | |
| ***5. Cronfa WREN*** | | | |
| | Dylid sicrhau bod CGBau Lleol yn ardaloedd WREN yn ymwybodol o'r gronfa. Mae'n rhaid cysylltu nifer o safleoedd ar sail ecolegol ac o fewn 10 milltir i safle tirlenwi WREN. | Bydd SMc yn sicrhau bod LBAPau perthnasol yn ymwybodol o'r gronfa. | Dosbarthwyd y wybodaeth. Mae CBGau Lleol yn ymwybodol o'r gronfa hon. |
| ***6. Camau i annog mwy o weithgarwch ar y tir*** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gofyn i CGBau Lleol gynnwys camau a gymerwyd tuag at dargedau arfordirol yn eu cylch cyllid nesaf | SMc a SM | Cwblhawyd. Mae CGBau Lleol yn gwybod am hyn. Caiff e-bost ei anfon i atgoffa pawb am y newyddion diweddaraf am waith arfordirol. |
| | Rhoi canllawiau ar reoli cynefin arfordirol i bartneriaid y CGBau Lleol | | |
| | Efallai bod diffyg gwybodaeth am gynefin arfordirol yn rhwystro CGBau Lleol rhag cyflawni gwaith arfordirol | SMc i bennu pa CGBau Lleol sydd ag arbenigwyr arfordirol yn eu partneriaethau a pha rai sydd hebddynt ac felly angen rhagor o help | Anfonwyd e-bost yn gofyn am wybodaeth |
| | Cynnig i gael gwared ar ffyrdd o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Bydd RE yn ymchwilio i weld a ellir cael gwared ar y B4319 o system dwyni Sir Benfro. Byddai hyn yn ailgysylltu nifer o systemau twyni ac yn adfer hydroleg naturiol. Byddai hwn yn brosiect blaenllaw gwych. | RE i lunio crynodeb o'r weledigaeth, gyda mapiau, i'w gyflwyno i CEG. | |
| ***7. Gosod targedau ar gyfer morfeydd heli a gwastadeddau llaid*** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Awgrymodd y grŵp morol y dylai gymryd cyfrifoldeb am osod targedau ar gyfer morfeydd heli fel y gellir eu cyfuno â gwastadeddau llaid i lunio un targed (fel y gwneir ar lefel y DU). Cytunodd CEG. | | |
| ***8. Cyfeirio rhywogaethau*** | | | |
| | Dylai'r gyfran gyntaf o gamau gweithredu a thargedau ar gyfer rhywogaethau a gyfeiriwyd gan arweinwyr partneriaethau yng Nghymru fod ar gael gan y grŵp arbenigol rhywogaethau yn fuan. | Bydd PR yn dosbarthu rhestri o rywogaethau wedi'u rhoi mewn cynefinoedd | Mae'r gyfran gyntaf bellach ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: http://www.biodiversitywales.org.uk/bap_in_wales-27.aspx |
| ***9. Ffactorau sy'n llywio polisïau yn CEG*** | | | |
| | Rheoli ardaloedd arfordirol:<br>Bydd KS yn drafftio manylion i edrych ar y broses o reoli traethau, newid pwyslais oddi ar ddefnyddio amddiffynfeydd cadarn i alluogi gwaddodion arfordirol i symud yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhydd, a bydd hyn yn cyfrannu at yr SMP nesaf.<br>Defnyddio twyni fel amddiffynfeydd arfordirol naturiol<br>Ailalluogi symudiadau mewn systemau twyni:<br>Dylid ystyried efallai nad oes amgylchiadau naturiol yn bodoli i gynnal twyni symudol.<br>Dyddodiad nitrogen ac ewtroffigedd:<br>Mae angen mynd i'r afael â hyn ar lefel genedlaethol (mae'n rhan o'r asesiad o ail-alluogi symudiadau).<br>Planhigfeydd conwydd:<br>Proses a gynhelir fesul cam i greu coetir mwy naturiol mewn ardaloedd sy'n agos at blanhigfa gonwydd | | |
| | Gwirfoddolodd Alec Taylor i gydlynu materion polisi sy'n deillio o CEG, a bydd yn cael golwg ar ffurflen a fersiwn drafft o'r polisi | Gwnaeth AT ddosbarthu ffurflen polisi wedi'i diweddaru i'r grŵp wneud sylw arno. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Morfa heli - ail-alinio rheoledig | PR i ddosbarthu gwybodaeth am y wefan - enghreifftiau ledled Ewrop (Cymru yw'r unig wlad nad ydyw wedi cyflawni gwaith ail-alinio rheoledig) | |
| ***10. Safbwynt CGB Lleol*** | | | |
| | Steve Moon fydd cyswllt y CGB Lleol ar gyfer CEG a dylid ysgrifennu crynodeb o bwyntiau allweddol y cyfarfod hwn ar gyfer y CGBau Lleol | Bydd JH yn rhoi rhestr o gyfeiriadau e-byst y CGBau Lleol i SM a bydd SM yn dosbarthu crynodeb o gyfarfod CEG i'r CGBau Lleol<br><br>Bydd SM yn anfon strwythur o CGB Lleol Pen-y-bont ar Ogwr i PR | Anfonwyd y rhestr o gysylltiadau at SM |
| ***11. Gweithdy cynhadledd WBP*** | | | |
| | Gwirfoddolodd Kate Collins i gynrychioli PR yng ngweithdy'r CGB yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | | |
| ***12. Targedau lefel uwch Glastir*** | | | |
| | Bydd ffermwyr sydd wedi'u lleol o fewn 10% o Gymru a bennwyd yn gymwys | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i gael taliad o £150 fesul hectar. Cyfrifoldeb CCGC fydd nodi'r 10% o Gymru lle caiff y taliad hwn ei roi; mae'n rhaid iddo gynnwys y chwe elfen a nodir yn Atodiad 2. Dylid llunio mapiau cyd-daro i ganfod lleoliadau croesi cynefinoedd. Mae angen llunio pecyn arfordirol yn unol â'r ardal 10% hon. Cynigiodd PR y dylid cynnwys yr ardal arfordirol gyfan (300m o ardal glustogi) ar gyfer arfordir Cymru gyfan (heb gynnwys ardaloedd trefol). Nid yw'n debygol y caiff y rhain eu derbyn, felly bydd angen i CEG flaenoriaethu ardaloedd i'w cynnwys. | Bydd PR yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp am gynnydd y cynnig arfordirol wrth ddewis y 10% | |
| ***13. Mynediad Arfordirol*** | | | |
| | Y terfyn amser ar gyfer llwybr cerdded arfordirol Cymru yw | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2012. Ni wnaeth LlCC ymrwymo i ddeddfwriaeth am lwybr arfordirol fel y ceir yn Lloegr, dim ond i wella llwybrau sydd eisoes yn bodoli. Hon yw'r 3[edd] flwyddyn o roi arian i awdurdodau lleol i greu'r llwybr. Mae gan swyddogion cadwraeth CCGC rôl bwysig yn y broses o asesu'r llwybr. Dylid cyflawni gwaith asesu priodol ym Morydau Afon Hafren, Afon Dyfrdwy ac Afon Dyfi fel y gall y llwybr arfordirol wyro oddi wrth yr arfordir yn y lleoliadau hyn. Ceisio osgoi achosion o golli cynefinoedd. Dylid ystyried llwybrau tymhorol amgen os ceir pryderon o ran cadwraeth ar adegau penodol o'r flwyddyn.<br><br>Mae Quentin hefyd yn delio â mynediad ar gyfer hamddena felly gallwn ei holi | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | am unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn. | | |
| ***14. Rhaglen Waith*** | | | |
| | Cytunwyd bod taenlenni Gweithredu; Ffactorau sy'n llywio polisïau; a threth dirlenwi yn datblygu'r rhaglen waith ar gyfer CEG ar hyn o bryd | | |
| ***Dyddiad y cyfarfod nesaf - $27^{ain}$ Ionawr 2010*** | | | |